Hawdd ei Ddeall

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

# Cefnogi'r celfyddydau Cymreig i weithio gyda gwledydd eraill

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **ganllawiau Cronfa'r Cyfleoedd Rhyngwladol**.

**Ebrill 2023**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y bydd arnoch chi angen help i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.** I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** wai.org.uk/cy

**E-bost:** info@wai.org.uk

**Ffôn:** 029 2044 1300

**Twitter:** @WAICymruWales

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cynnwys

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon ....................................2**

**Cyflwyniad ...............................................................4**

**Ynglŷn â'r gronfa sy'n llai ...............................................6**

**Pwy sy'n gallu gwneud cais? .........................................8**

**Pryd i wneud cais ........................................................10**

**Sut y byddwn ni'n gwneud ein penderfyniad............11**

Pwy sy'n gallu cael yr arian........................................11

Pwy sydd ddim yn gallu cael yr arian .......................12

**Sut i wneud cais? ..........................................................13**

**Pa wybodaeth sydd arnon ni angen ei chael gennych chi ...........................................................15**

Ynglŷn â'ch costau ....................................................15

Ynglŷn â dogfennau ..................................................16

**Beth sy'n digwydd nesaf? ............................................17**

# Cyflwyniad



**Celfyddydau Rhyngwladol Cymru** ydyn ni. Rydyn ni'n helpu artistiaid Cymreig a busnesau celfyddydol i weithio gyda gwledydd eraill.



Rydyn ni'n galw artistiaid Cymreig a busnesau celfyddydol yn **Gelfyddydau Cymru** i'w ysgrifennu'n fyr.



Os ydych chi'n gweithio yn y celfyddydau Cymreig, gallwn ni eich helpu. Gallwn ni roi cyngor, cefnogaeth ac arian i chi i weithio gyda gwledydd eraill.



Mae'r arian y gallwn ni ei roi i chi yn cael ei alw'n **gronfa**.

# Ynglŷn â'r gronfa sy'n llai




Mae'r gronfa hon ar gyfer helpu Celfyddydau Cymru i weithio gyda gwledydd eraill. Rydyn ni'n galw'r math hwn o waith yn brosiect.



Gallwch chi ddefnyddio'r gronfa hon i dalu am eich prosiect. Gall y gronfa dalu am bethau fel costau teithio, deunyddiau, a thalu artistiaid.



Fe ddylech chi gael ffordd arall o orffen eich prosiect os na allwch chi deithio.




Fe fyddwn ni’n eich helpu i gynllunio eich prosiect.

# Pwy sy'n gallu gwneud cais?




Mae'r gronfa hon ar gyfer helpu Celfyddydau Cymru i weithio gyda gwledydd eraill. Rydyn ni'n galw y math hwn o waith yn brosiect.



Os ydych chi'n gweithio yn y celfyddydau yng Nghymru, gallwch chi wneud cais am y gronfa hon.



Mae'n rhaid bod gennych chi brosiect rydych chi am ei wneud mewn gwlad arall neu gyda gwlad arall.



Gall grwpiau o artistiaid wneud cais am y gronfa hon hefyd.



Gall mudiadau celfyddyd yng Nghymru wneud cais am y gronfa hon hefyd.




Os byddwch chi'n gwneud cais fel grŵp o artistiaid, dim ond enw un artist fydd ei angen i wneud cais. Ond bydd arnon ni angen gwybod enwau'r artistiaid eraill sy'n cymryd rhan hefyd.



Mae gennym ni gyfanswm o £50 mil i'w wario.



Ond, y swm mwyaf o arian y gallwn ni ei roi i chi yw £5,000.




Darllenwch ein nodiadau cymorth i gael mwy o wybodaeth ynghylch pwy sy'n gallu gwneud cais am y gronfa hon.

# Pryd i wneud cais

Gallwch wneud cais unrhyw bryd ond gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud cais o leiaf 7 wythnos cyn i'ch prosiect ddechrau.

# Sut y byddwn ni'n gwneud ein penderfyniad

## Pwy sy'n gallu cael yr arian



Gallwch chi gael yr arian hwn:



☐ os oes gennych chi syniadau newydd ar gyfer prosiect gyda gwlad arall




☐ os oes gennych chi brosiect a allai fynd ymlaen am amser hir



☐ os oes arnoch chi eisiau rhannu pethau fel eich profiadau a'r pethau rydych chi'n eu gwybod



☐ os gallwch chi gael mwy o bobl i weithio gyda gwledydd eraill

## Pwy sydd ddim yn gallu cael yr arian



Fyddwch chi ddim yn cael yr arian:



- os nad yw eich gwaith yn cynnwys gweithgaredd gyda gwledydd eraill



- os yw eich gwaith yn dibynnu ar deithio yn unig ac na fedrwch chi wneud y gwaith prosiect ar-lein



- os oes arnoch chi angen y gronfa ar gyfer prosiect myfyriwr



- os oes arnoch chi eisiau'r gronfa i gymryd rhan mewn cystadleuaeth



- os oes arnoch chi eisiau'r gronfa ar gyfer gwaith rydych chi wedi'i orffen yn barod.


# Sut i wneud cais?



Os oes arnoch chi eisiau help i wneud cais am y gronfa, gallwch chi ofyn i ni. Rydyn ni yma i helpu.

**I wneud cais am y gronfa, bydd angen i chi wneud cais. Bydd angen i chi ateb y cwestiynau hyn:**

1. Gwybodeath amdanoch chi'ch hun, gan gynnwys:
   Eich enw
   Pryd fydd eich prosiect yn cychwyn a phryd y bydd yn dod i ben
   Faint o arian fydd ei angen arnoch chi
   Pa iaith rydych chi am ei defnyddio
   Gwybodaeth eich cyfrif banc
   Beth yw eich prosiect a pham mae e'n bwysig i chi?




2. Beth rydych chi'n gobeithio ei gael o wneud y prosiect hwn?



3. Efallai bod eich prosiect gyda grŵp o artistiaid. Dywedwch beth yw eich cynllun dros ddewis y grŵp hwn a gweithio gyda nhw.

4. Os ydych chi am deithio i wlad arall, dywedwch pam y mae'n rhaid i chi deithio.

# Pa wybodaeth sydd arnon ni angen ei chael gennych chi

## Ynglŷn â'ch costau

**I wneud cais am y gronfa bydd angen i chi hefyd roi'r holl wybodaeth isod i ni:**




- Sut y byddwch chi'n gwario'r arian ar bethau fel:
  - Ffïoedd artistiaid
  - Costau aelodaeth neu gostau cofrestru
  - Deunyddiau
  - Costau teithio
  - Cyfieithu




- Manylion yr holl bethau y mae arnoch chi angen y gronfa ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys arian i dalu cyflog i chi eich hun.



- Manylion unrhyw arian y gallech chi fod yn ei wneud.



☐ Manylion unrhyw help y gallech chi ei gael am ddim.



☐ Manylion unrhyw arian arall y byddwch chi'n ei ddefnyddio i helpu i dalu am y prosiect.

## Ynglŷn â dogfennau



☐ **Llythyr** neu **e-bost** gan y bobl o wlad arall rydych chi'n gweithio gyda nhw. Dylai'r ddogfen ddweud eu bod nhw am weithio gyda chi. Dylai'r ddogfen hon gynnwys cyswllt â'u gwefan hefyd.




☐ Efallai bod arnoch chi eisiau arian i fynd i ddigwyddiad mewn gwlad arall. Does arnoch chi **ddim** angen llythyr neu e-bost ynglŷn â hyn. Gallwch chi e-bostio cyfeiriad **gwefan** y digwyddiad aton ni.




☐ Mae arnon ni angen mwy o wybodaeth am eich gwaith. Gallai hyn fod yn gyfeiriad gwefan neu C.V.

# Beth sy'n digwydd nesaf?

Byddwn yn gadael i chi wybod os byddwch chi'n cael yr arian erbyn 31 Mawrth 2022.




Os byddwch chi'n cael yr arian, byddwn ni'n eich helpu i gynllunio mwy ar eich prosiect.



Byddwn ni hefyd yn gofyn i chi ateb rhai cwestiynau am eich prosiect 30 diwrnod ar ôl y dyddiad gorffen.

**Gallwch chi ateb y cwestiynau mewn gwahanol ffyrdd:**



☐ Gallwch chi ysgrifennu eich atebion.



☐ Gallwch chi wneud fideo gyda'ch atebion.



- Gallwch chi recordio eich llais gyda'ch atebion.




Blwyddyn ar ôl i'ch prosiect orffen, byddwn ni'n gofyn mwy o gwestiynau i chi.



Mae'n bwysig eich bod chi'n ateb y cwestiynau rydyn ni'n gofyn i chi. Bydd yn ein helpu i gefnogi mwy o bobl yn y dyfodol.